S4C /

# Swyddog Marchnata

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

**Pam ymuno ag S4C?**

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu Pawb, Cer Amdani.

Drwy weithgareddau marchnata arloesol byddwch chi'n helpu i wireddu ein Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth o S4C a'r oll mae'n ei gynnig, gan ddenu cynulleidfaoedd Cymru a thu hwnt trwy fanteisio ar y cyfleoedd mai llwyfannau digidol yn eu cynnig i ymgyrchoedd marchnata, brand ac ymgysylltu.

Byddwch chi'n gyfrifol am rannu a hyrwyddo cynnwys a gwasanaethau S4C gan feithrin perthynas barhaus â chynulleidfaoedd allweddol, cwmnïau cynhyrchu a rhanddeiliaid amrywiol.

Drwy amryw weithgareddau marchnata byddwch yn dangos sut mae S4C yn ceisio sicrhau fod y Gymraeg yn rhan bwysig o fywyd pawb yng Nghymru drwy ddarparu cynnwys beiddgar ac arloesol sy'n dathlu'n diwylliant cyfoes.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud?**

Fel aelod o dîm byddwch yn gyfrifol am ddweud wrth y byd am raglenni, cynnwys a gwasanaethau S4C.

Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau a thechnegau i gyfleu negeseuon, denu gwylwyr a chynnal trafodaeth rhwng S4C a'i rhan-ddeiliaid.

**O dan arweiniad byddwch yn gyfrifol am:**

- Rheoli prosiectau hyrwyddo trwy gydweithio gyda chomisiynwyr, cwmnïau cynhyrchu a thimoedd mewnol ac allanol i sicrhau llif gwybodaeth, negeseuon cyson, llif ymgyrch a chymeradwyaeth.
- Llunio a gweithredu ymgyrchoedd hyrwyddo, gan weithio'n agos gyda thimau mewnol (cyfathrebu, digidol a chomisiynwyr) a rhan-ddeiliaid allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth o frand S4C a denu gwylwyr i raglenni, cyfresi a gwasanaethau S4C, ar sgrin ac ar-lein.
- Ddefnyddio data a gwybodaeth gynulleidfaol er mwyn targedu negeseuon a chynnwys i'r cynulleidfaoedd perthnasol gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau digidol addas.
- Adnabod a defnyddio dulliau aml-gyfrwng hyrwyddo yn ôl yr angen, o gyfryngau ymwybyddiaeth 'out of home', i hysbysebion digidol, e-bost, hysbysebu, nawdd, cystadlaethau ac yn y blaen.
- Trefnu sesiynau ffotograffiaeth ar gyfer ymgyrchoedd ar y cyd gyda swyddogion lluniau llonydd a staff eraill yn ôl yr angen.

S4C /

- Trefnu unrhyw ddigwyddiadau hyrwyddo, gan gynnwys lansiadau, gan sicrhau cynulleidfa a sylw drwy weithio a chyfathrebu'n effeithiol gyda thimoedd eraill a chyflenwyr allanol.
- Fel aelod o'r Tîm Marchnata byddwch yn gyfrifol am drefnu presenoldeb S4C ym mhrif ddigwyddiadau Cymru ac unrhyw ddigwyddiadau eraill sy'n rhan o gynllun marchnata yna bod yn bresennol yn ystod y digwyddiadau (gan weithio ar benwythnosau/nosweithiau neu wyliau banc).
- Fel aelod o'r Tîm Marchnata byddwch yn gyfrifol am drefnu digwyddiadau corfforaethol S4C e.e. cyfarfodydd cyhoeddus, lansiadau ac yn y blaen.
- Bydd disgwyl i chi werthuso'ch gwaith er mwyn sicrhau fod y gwaith wedi cyrraedd y nod, ac yn darparu gwerth am arian yn unol â'r cynllun marchnata blynyddol.

**Ymhlith cyfrifoldebau eraill byddwch yn gyfrifol am (heb gyfyngiad):**

- Cyfrannu i syniadau creadigol.
- Ysgrifennu copi ar gyfer deunyddiau hyrwyddo a negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Drafftio negeseuon a chynnwys marchnata ar y cyd gydag adrannau eraill yn ôl y galw.
- Briffio'r cwmni prynu cyfryngau er mwyn cynllunio ymgyrchoedd aml-gyfrwng.
- Briffio dylunwyr a chynhyrchwyr ar ymgyrchoedd gan sicrhau fod yr holl waith yn cydymffurfio â chanllawiau brand S4C.
- Sicrhau bod asedau creadigol yn cael eu cwblhau a'u cyfleu yn gywir ac ar amser.
- Rheoli ymgyrchoedd yn unol â llif gwaith a phrosesau'r adran.
- Trefnu sgriptiau, props, caneuon, gwisgoedd a threfnu asesiadau risg ar gyfer digwyddiadau.
- Bwcio a chytundebu artistiaid a chriw.
- Rheoli digwyddiadau cymunedol yn ôl y gofyn.
- Disgwylir i chi ymgymryd ag unrhyw waith neu gyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n codi o bryd i'w gilydd.

**Y math o berson rydyn ni'n chwilio amdano:**

- Rhywun brwdfrydig, gyda'r fenter i arwain ar ymgyrchoedd.
- Person creadigol sydd yn mwynhau cyd-weithio gydag eraill ar ymgyrchoedd creadigol; cydweithio a chyfathrebu gydag adrannau hyrwyddo eraill er mwyn i ddod ac ymgyrch marchnata yn fyw.
- Rhywun sydd yn deall (neu yn barod i ddeall) y sector darlledu a'r cyfle mae platfformau digidol yn rhoi i ymgyrchoedd marchnata.

**Byddwch yn llwyddo yn y rôl hon os:**

- Rydych yn berson sy'n barod am sialensiau newydd, gyda'r parodrwydd i weithio'n hyblyg.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

S4C /

- Rydych yn berson brwdfrydig, ac yn mwynhau gweithio o fewn awyrgylch cyffrous a chyflym.

- Rydych yn berson sydd yn awyddus i weithio ar ystâd eang o ymgyrchoedd marchnata- o gyfresi drama i chwaraeon a digwyddiadau cenedlaethol.

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.

- Cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.

- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

- Cydweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.

- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.

- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg yn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.

- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus lle'n briodol.

- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.

- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.

- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.

- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu yn raddol i 32 diwrnod ymhen 9 mlynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch â pobl@s4c.cymru.

Yn eich cais, sicrhewch eich bod yn amlygu'r sgiliau a'r profiad sydd gennych sy'n berthnasol i'r rôl a restrir yn y fanyleb bersonol isod ac sy'n unol â'n gwerthoedd craidd. Rhowch enghreifftiau clir sy'n dangos pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

S4C /

**Manyleb Personol:**

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | Sgiliau Cymraeg cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig. | |
| **Cymwysterau** | Gradd neu brofiad perthnasol. | |
| **Profiad** | Ymwybyddiaeth o gyfryngau hyrwyddo aml-lwyfan i dargedu cynulleidfaoedd.<br><br>Profiad o ddatblygu a gweithredu ymgyrchoedd hyrwyddo llwyddiannus.<br><br>Profiad o adeiladu a datblygu perthnasau allweddol. | Profiad o gydlynu digwyddiadau a gweithio gydag asiantaethau allanol yn llwyddiannus. |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Sgiliau trefnu a chynllunio rhagorol (sylw i fanylder a thrylwyr).<br><br>Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig i safon ragorol.<br><br>Y gallu i ymchwilio a dadansoddi data, asesu'r risg a pharatoi barn broffesiynol.<br><br>Dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau sefydliadol, yn ogystal â'r amgylchedd rheoleiddio y maent yn gweithredu oddi mewn iddo.<br><br>Presenoldeb personol, deallusrwydd cryf a gallu meddwl strategol. | Technegau a strategaethau dadansoddi ariannol/busnes.<br><br>Rhywfaint o wybodaeth ar y Sector Darlledu/Creadigol a'r fframwaith polisi a gwleidyddol mewn perthynas â'r diwydiannau creadigol. |
| **Nodweddion Personol** | Y gallu i weithio fel unigolyn ac fel rhan o dîm gan ddangos parch i gydweithwyr eraill, ar bob lefel.<br><br>Y gallu i feddwl yn greadigol.<br><br>Hyder i gadeirio cyfarfodydd prosiect.<br><br>Dealltwriaeth ac ymrwymiad i Strategaeth a pholisi Amrywiaeth a chynhwysiant S4C. | |

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

| | | |
|---|---|---|
| | Lefel uchel o uniondeb personol, a fynegir drwy ymddygiad positif.<br><br>Dangos Gwerthoedd ac Ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd S4C.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg ac ar gael i weithio mewn digwyddiadau cenedlaethol ar draws y flwyddyn (ar benwythnosau a chyda'r hwyr). | |

## Manylion eraill

**Lleoliad:** Caerfyrddin / Caerdydd / Caernarfon (o leiaf 2 ddiwrnod mewn swyddfa a chyfnod swyddfa parhaus am y bythefnos gyntaf er mwyn hyfforddi - mae'n debygol y bydd yr hyfforddiant yma yn digwydd yn ein swyddfa/swyddfeydd yng Nghaerfyrddin neu Gaerdydd).

**Cyflog:** £38,000.00 y flwyddyn

**Cytundeb:** Parhaol

**Oriau gwaith:** 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

**Cyfnod prawf:** 6 mis

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau.

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

**Teithio:** Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig

## Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau **erbyn 9.00 ar ddydd Llun 22 Medi 2025** gan ddefnyddio'r ddolen isod. Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Dyddiad Cyfweliad: 02 Hydref 2025**, lleoliad i'w gadarnhau**.**

**Defnyddio AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

**Sgiliau Cymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg yn y gweithle, ac rydym yn chwilio am rywun sy'n agored i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r iaith fel rhan o'u taith gyda ni. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR